## Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yn Eisteddfod yr Urdd eleni yn Ninbych. Roedd yn hyfryd fod nôl yn crwydro'r Maes ac yn gwylio'r cystadlu. Da iawn i'r canlynol ar eu llwyddiant:
Elen Griffiths - 1af Unawd Chwythbrennau o dan 19.
Grŵp dawnsio creadigol – 1af
Lilly Sutton – 1af Gwaith Creadigol 2D
Efa Norris - 2il llefaru bl2 ac iau.
Ymlaen i Sir Gâr y flwyddyn nesaf!


























| Dyddiadau Diwrnodau HMS |
|---|
| Dydd Llun 5ed Medi 2022 |
| Dydd Gwener 30ain Medi 2022 |
| Dydd Gwener 9fed Rhagfyr 2022 |
| Dydd Gwener 23ain Rhagfyr 2022 |
| Dydd Gwener 23ain Mehefin 2023 (I'w gadarnhau) |
| Dydd Llun 24ain Gorffennaf 2023 |



## Gêm Derfynol Cwpan Cymru 2022: Ysgol Garth Olwg v Ysgol Gyfun Gwyr

**Cyn y gêm - bore yn yr ysgol**
Ar ddechrau'r dydd roedd pawb yn gyffrous ac yn nerfus ar yr un pryd yn edrych ymlaen at yr her oedd yn ein hwynebu. Aethom i ymarfer yn y bore cyn y gêm i wneud rhediad capten am ein paratoadau olaf. Ar ôl ymarfer cafon ni ein gwobrwyo gyda chit newydd y gêm derfynol, wedi'i noddi gan Edwards a fideo pob lwc gan lawer o chwaraewyr a chyn-chwaraewyr Cymru, chwaraewyr proffesiynol lleol, cyn-ddisgyblion a hyfforddwyr ein clybiau rygbi yn dymuno pob lwc i ni cyn gadael am y gêm.

**Cyrraedd y Stadiwm Principality**
Cyrhaeddon ni'r stadiwm ar ôl cael y fraint o deithio ar fws tîm Cymru ac roedd hi'n deimlad mor gyffrous o'r teithio i gerdded trwy goridorau'r Stadiwm Principality yn union fel ein harwyr sy'n chwarae rygbi dros Gymru. Ni allwn gredu bod gennym y cyfle i chwarae yn stadiwm gorau'r byd!

**Twymo ar y cae**
Cerddon ni allan i'r cae ac roedden yn gallu clywed sŵn yr holl dorf yn gweiddi ein henwau. Roedd twymo ac ymarfer ar y cae hwn cyn gêm derfynol mor gyffrous ac yn deimlad unigryw.

**Y Gêm Derfynol**
Dechreuodd y gêm yn araf iawn i ni a sgoriodd Ysgol Gyfun Gwyr ddau gais cyflym gan ein rhoi o dan bwysau cynnar. Ond ar ôl paratoi'n dda dros wyliau'r Pasg roeddwn ni'n gwybod gallwn ennill y gêm trwy chwarae i'n cryfderau ac i ddyfalbarhau tan y munud olaf. Ar ôl y dechreuad heriol, llwyddon i sgorio dau gais gan Sam Price ar yr asgell a Ryan Jones yn y blaen ar ôl cyfnodau hir o bwysau cyn hanner amser, i ddod nôl mewn i'r gêm. Roedd y sgôr ar yr hanner yn 21-10 i Gwyr ond roedd hyder y bois yn cynyddu pob munud. Yn yr ail hanner llwyddon i groesi'r llinell ddwywaith eto trwy ein blaenwyr cryf Alfie John, a Ryan Jones am yr ail dro i ddod â'r sgôr i 21-20 gyda'r cloc yn cyfrif lawr. Yn dilyn cyfnodau mawr o bwysau gan Garth Olwg ar linell gais Gwyr, cawsom y cyfle i fynd ar y blaen trwy gic cosb o 45m gan Ioan Leyshon a lwyddodd i symud y sgôr i 23-21 a dyma fu'r sgôr terfynol. Roeddwn ni yn bencampwyr Cymru!

**Gwobrwyo a dathlu gyda'r dorf**
Ar ôl y gêm cawsom ein gwobrwyo gyda Chwpan Cymru a nawr rydym yn rhan o hanes y gystadleuaeth fel Pencampwyr Cymru bl9 am 2022. Roedd codi'r tlws o flaen yr eisteddle a'r dorf yn deimlad arbennig na fyddaf i a'm cyd chwaraewyr byth yn anghofio. Cawsom y cyfle i fynd at y dorf o'n ffrindiau, cyd-ddisgyblion a theuluoedd i ddathlu ein llwyddiant gyda'n gilydd fel Ysgol falch Gymraeg Garth Olwg gyda Chwpan Cymru yn ein dwylo. Roedd y bechgyn i gyd mor hapus ar ein buddugoliaeth gan ddathlu yn yr ystafell newid wrth ganu gyda'n gilydd a chael hwyl a sbri wrth rannu'r amser yma bydd yn aros yn ein cof am byth. Yn dilyn y dathliadau fel tîm aethon ni gyda'n gilydd i glwb rygbi Caerdydd lle cawsom ein croesawu gan floeddio a chlapio di-ri er mwyn dathlu'n bellach gydag ein rhieni trwy rannu'r cwpan a chymryd lluniau er mwyn creu atgofion am byth. Profiad rydw i'n siŵr bydd y garfan yn trysori am weddill ein bywydau.
Diolch i bawb am yr atgofion
Gan Lloyd Conquer, Capten Tîm rygbi Blwyddyn 9 Garth Olwg 2021-22.



# Eisteddfod yr Ysgol

Pleser oedd cynnal Eisteddfod gyntaf Ysgol Garth Olwg ers i ni droi'n ysgol 3-19. Roedd dwy flynedd heb Eisteddfod yn amser hir iawn i ddisgwyl ond roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol a werth yr aros hir. Roedd y cystadlu brwd wedi dechrau yn bell cyn i unrhyw un droedio ar lwyfan gyda'r cystadlaethau gwaith cartref. Roedd safon y gwaith yn dda iawn gyda thasgau ar gyfer pob pwnc a phob adran. Roedd hefyd ymarferion gofalus yn ddyddiol am dri chwarter awr er mwyn sicrhau safon uchel i'r perfformiadau. Yna, daeth y diwrnod mawr o'r diwedd. Hyfryd oedd clywed brwdfrydedd y disgyblion o'r Ysgolion Isaf, Canol a Hŷn wrth iddyn nhw glapio a chwibanu ar gyfer eu llysoedd: Aran, Clydach a Dowlais. Yn y bore cafodd yr Ysgolion Isaf a Chanol y cyfle i serennu gyda chystadlaethau megis parti llefaru, parti unsain a dawnsio. Llwyddodd Aran i ennill nifer o bwyntiau a dechrau'r dydd ar y brig. Ar ôl egwyl, cyfle i'r athrawon berfformio gydag eitem staff. Roedd dawns gan staff Aran a cherddorfa samba gan Dowlais, ond Clydach cipiodd y fedal gyda pherfformiad pypedau llawn hwyl a sbri. Ar ôl hynny, cawsom wledd o gerddoriaeth gydag unawdau lleisiol ac offerynnol. Braf oedd cael perfformiadau safonol tu hwnt ac arddangos y talentau cerddorol sy'n bodoli yn yr ysgol. Ond roedd cyfle hefyd i ddangos talentau eraill hefyd megis sgiliau pêl-droed, triciau gyda chi a hyd yn oed dawnsio stryd. Ar ôl hoe am ginio haeddiannol, cawsom seremoni gadeirio ffurfiol. Roedd Mr. Edwards yn wen o glust i glust fel ein harchdderwydd a diolch i Mr. Steen Spinola am greu cleddyf newydd yn arbennig ar gyfer yr Ysgol. Twm Pike, Olivia Santini a Benjamin Spicer a ddaeth i'r brig gyda'u cerddi ar y themâu haf, twyll ac enfys. Diolch i Mr. Cynan Llwyd am fod yn feirniad teg i ni unwaith eto. Yn dilyn hynny, cafodd ddisgyblion 7, 8 a 12 y cyfle i berfformio gyda chystadlaethau megis meimio, cân ieithoedd rhyngwladol, ymgom a dawnsio gwerin. Clydach oedd yn fuddugol yn nifer o'r rhain ac felly roedd y pwyntiau'n agos. Daeth yr Eisteddfod lawr i gystadleuaeth y côr. Hyfryd oedd gwrando ar y llysoedd yn canu Yma o Hyd gan gynnwys disgyblion a staff o bob oedran gyda'r fath angerdd. Aran gipiodd y wobr côr ac yna felly'r Eisteddfod gyfan (o drwch blewyn!). Roedd yn ddiwrnod wirioneddol fythgofiadwy a hyfryd oedd gweld yr ysgol 3-19 ar ei gorau. Diolch yn fawr i Ms Menna Thomas a Ms Menna Lewis am feirniadu'r Eisteddfod eleni mewn modd deg iawn! Mae pawb wir yn edrych ymlaen at Eisteddfod Ysgol Garth Olwg yn 2023.












**Mabolgampau'r ysgol**

Cafwyd gwledd o gampau athletau a maes draw yn Stadiwm Lecwydd ar ddiwrnod braf ar gyfer Blynyddoedd 7-10. Dyma oedd y tro cyntaf i'n disgyblion allu cynrychioli eu llysoedd newydd Aran, Clydach a Dowlais ers sefydlu'r Ysgol 3-19. Er gwaethaf y gwres, gwelwyd rhedeg, neidio, a thaflu arbennig yn stadiwm y ddinas. Diolch arbennig i'r Adran Addysg Gorffol am drefnu diwrnod bendigedig ar gyfer athletwyr y dyfodol.

Llys Clydach a ddaeth i'r brig y tro hwn, ond llwyddodd y mabolgampau i sbarduno traddodiad o gyffro, cystadlu a chefnogi brwd rhwng ein llysoedd newydd.



Cynhaliwyd mabolgampau Bl 5 a 6 eleni ar gae uchaf yr ysgol - y mabolgampau cyntaf ers tair blynedd!  Bu cystadlu brwd ym mhob camp ond Llys Dowlais ddaeth i'r brig.



Roedd Mabolgampau'r Ysgol Isaf hefyd yn yr ysgol a chafodd y disgyblion lawer o hwyl mewn amryw o gystadlaethau. Roedd pawb wedi cael hufen ia haeddiannol ar ddiwedd y dydd yn ogystal!

Dyma Bencampwyr yr Ysgol Ganol ac Uchaf:

Bl.5: Charlie Norcup ac Ella Edwards
Bl.6: Jacob Edwards a Samar al Hasan
Bl. 7: Finley Davies, Grace Forkin ac Ava John
Bl. 8: Freddie Gabe Williams, Dylan Szalkowski a Megan Phillips
Bl. 9: Seb Williams a Sophia Goulding
Bl.10: Eurion John, Aled Evans a Kara Bennett



## Taith i Borth yr Ogof, Ystradfellte

Aeth criw o fyfyrwyr Gwasanaethau Cyhoeddus a Dysgu yn yr Awyr Agored ar antur fythgofiadwy o dan ddaear! Ffurfiwyd ogofau Porth yr Ogof, Ystradfellte filoedd o flynyddoedd yn ôl ond dyma'r tro cyntaf i'n myfyrwyr dewr gamu i mewn i unrhyw ogof. Roedd y profiad o fod mewn amgylchedd estron, gwlyb, tywyll a chul iawn yn glawstroffobaidd a heriol. Cyfle gwych i brofi ei hunain yn ogystal ag arddangos sgiliau arweinyddiaeth a chydweithio.







## Ymweliad Mei Gwynedd

Ar Fai'r 13eg daeth Mei Gwynedd i'r ysgol i roi dau weithdy i ddisgyblion bl 7 ac 8, a 9 a 10 ar sut i gyfansoddi caneuon poblogaidd. Roedd yn fore buddiol dros ben ac roedd y disgyblion wedi mwynhau gwrando a dysgu gan y cerddor. Diolch i Fenter Iaith Rhondda Cynon Taf am drefnu.







## Gweithgareddau Cerddorol

Ar ddydd Gwener Mehefin 17eg cafodd rai o ddisgyblion blwyddyn 9 gyfle i fynychu gweithdy drymio gyda Mr Mark Galozzi-Hibbert. Roedd yn gyfle gwych i ddatblygu sgiliau ensemble ac roedd pawb wedi mwynhau'n fawr!

Braf oedd croesawu Mei Gwynedd nôl i gynnal gweithdai cyfansoddi gyda disgyblion blwyddyn 7-10. Cafodd y disgyblion gyfle i ddysgu sut i gyfansoddi caneuon poblogaidd. Cyfansoddwyd a pherfformiwyd dwy gân wreiddiol ac roedd y disgyblion wrth eu boddau!







## Ffarwelio gyda Blwyddyn 11 a 13




Cawsom seremonïau hyfryd i ffarwelio gyda Blwyddyn 11 a 13. Mwynhewch eich haf a phob hwyl ym mis Medi ar ba bynnag lwybr yr ydych yn troedio.



### Diwrnod Seren a Sbarc

Dathlodd yr Ysgol Isaf ddiwrnod Seren a Sbarc drwy wisgo lliwiau porffor, oren a glas. Ymunodd y dosbarthiadau i gyd yn y gemau buarth pan ddaeth yr haul allan yn y prynhawn.




## Pontio Dyniaethau

Cafodd yr Adran Ddyniaethau gyfle i ymweld â rhai o ysgolion y Clwstwr yn ystod yr hanner tymor diwethaf. Cafod Bl.6 y cyfle i ddathlu llwyddiannau diweddar tîm pêl droed Cymru a chymharu bywyd nawr i gymharu â 1958. Mae'r adran yn edrych ymlaen at groesawu'r disgyblion i Garth Olwg ym mis Medi i ddatblygu eu sgiliau ymhellach.



| Dyddiadau Hanner Tymor | Dechrau | Diwedd |
|---|---|---|
| 1 (Hydref 2022) | 05/09/2022 | 28/10/2022 |
| 2 (Hydref 2022) | 07/11/2022 | 23/12/2022 |
| 3 (Gwanwyn 2023) | 09/01/2023 | 17/02/2023 |
| 4 (Gwanwyn 2023) | 27/02/2023 | 31/03/2023 |
| 5 (Haf 2023) | 17/04/2023 | 26/05/2023 |
| 6 (Haf 2023) | 05/06/2023 | 24/07/2023 |



### Gweithdy Dawns

Mwynheuodd ddisgyblion yr Ysgol Isaf weithdy dawns arbennig yn ystod yr hanner tymor hwn. Roeddent yn frwd iawn i ddysgu llawer o symudiadau egniol a chreadigol. Diolch o galon i Mrs Jackson a disgyblion blwyddyn 9 a 10 am roi'r cyfle arbennig hwn i'n disgyblion ieuengaf.







### Gwasanaeth Adam Coleman

Diolch o galon i Adam Coleman am ddod i ymweld â'r ysgol a chyflwyno gwasanaeth arbennig i flynyddoedd derbyn hyd at flwyddyn 4. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl yn fuan.

### Gwobr Efydd y Pwyllgor Eco

Mae Pwyllgor Eco Garth Olwg wedi bod yn brysur iawn eleni. Rydyn ni wedi llwyddo i sefydlu grŵp o ddisgyblion sydd yn awyddus i rannu syniadau a cheisio gwella ein hamgylchedd. Yn ystod y flwyddyn rydyn ni wedi blaenoriaethu tri pheth rydyn ni wedi gweld fel problem. Y tair blaenoriaeth yw sbwriel, egni a thir yr ysgol.
Yn gyntaf aethon ni ati i gynnal diwrnod gwisgo glas a gwyrdd i godi ymwybyddiaeth o'r Pwyllgor Eco ac i annog y disgyblion i ddysgu mwy amdano. Gofynnon i athrawon yr ysgol i ddiffodd y trydan am un wers ac i geisio cynnal gwers heb drydan. Roedd yn llwyddiannus iawn wrth weld amryw o wersi yn digwydd heb unrhyw drydan. Roedd Drama yn defnyddio goleuadau batri, Dylunio a Thechnoleg wedi cynnal gwers ymarferol tu fas ac aeth yr ysgol ganol tu fas i gasglu sbwriel. Mae casglu sbwriel wedi bod yn rhan bwysig iawn i'r pwyllgor gan ein bod yn gweld cymaint o sbwriel ac rydym yn medru trafod beth yw'r problemau mwyaf a sut gallwn ni wneud gwahaniaeth gyda hyn.
O ran tir yr ysgol rydyn ni wedi gweithio yn agos gyda Dosbarth y Bont er mwyn ailgydio yn yr ardd sydd yn yr ysgol. Gweithion ni yn galed iawn i dacluso'r ardal i'w wneud yn addas i dyfu planhigion. Hoffwn ni dyfu planhigion i allu defnyddio yn yr ysgol i goginio a rhannu gyda staff a'r gymuned leol. Yn yr ardal yma hefyd hoffwn ni dyfu blodau er mwyn annog pryfed gan fod pryfed yn bwysig iawn i'r amgylchedd a gallwn ni helpu gydag hynny.   Ar ôl blwyddyn lwyddiannus iawn rydyn ni wedi llwyddo ennill y wobr efydd am eco ysgolion. Mae hyn yn llwyddiant i'r disgyblion sydd wedi rhoi o'u hamser i'r pwyllgor gan gyfrannu a mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ac yn cyfathrebu gyda staff yr ysgol er mwyn sicrhau bod llais ein disgyblion yn cael eu clywed a dyma ran bwysicaf y pwyllgor. Diolch i bawb yn yr ysgol - disgyblion, staff a'r gymuned leol sydd wedi helpu'r flwyddyn yma gyda llwyddiant y Pwyllgor Eco.







## Gwobr arian Siarter Iaith

Ychydig wythnosau yn ôl cafodd yr ysgol newyddion penigamp ein bod wedi ennill y wobr arian. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu’r Pwyllgor Cymreictod yn brysur iawn yn cynnal llu o weithgareddau fel taith gerdded i fyny'r Garth i hybu'r Gymraeg, gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg yn eu dosbarthiadau a defnyddio ystod eang o eiriau gwych yn eu geirfa bob dydd yn yr ysgol. Roeddem ni yn falch iawn o dderbyn y wobr yma. Ymlaen at yr aur tro nesaf!





## Taith i Barc Thorpe




Ar Ddydd Mercher yr 28ain o Fehefin, aethom ar daith Ysgol Ganol ac Ysgol Uchaf i barc thema *Thorpe Park*. Roedden yn lwcus iawn gyda'r tywydd gan ei fod yn gynnes ond heb fod yn rhy boeth. Cawsom ddiwrnod i'r brenin yno gyda rhywbeth at ddant bawb. I'r *thrill seekers* yn ein plith, roedd nifer o *roller coasters* enfawr gan gynnwys Stealth, sy'n eich saethu chi 80 m.y.a. i uchderau o 200 troedfedd, a Colossus, sy'n troi ben i waered 10 gwaith! Ond roedd hefyd reidiau llai anturus fel y *Tea Cups* a'r *Flying Fish*. Gan ei fod yn ddiwrnod cynnes roedd rhai ohonom ni wedi penderfynu mynd ar y reid dŵr fel y Rumba Rapids neu Tidal Wave - roedd rhai yn socian! Cyn hir roedd e'n amser gadael a chawsom KFC neu Burger King yn y gwasanaethau er mwyn llenwi ein boliau cyn dychwelyd i Nantgarw. Diolch i'r staff am drefnu ac am edrych ar ein holau am ddiwrnod hir o hwyl.










## Cwis Llyfrau 2022

Teithiodd tîm cwis llyfrau blwyddyn 3 a 4 i Aberystwyth er mwyn cystadlu yn rownd derfynol Cwis Llyfrau Cymru. Roedd angen recordio fideo yn hysbysebu nofel o flaen llaw ac roedd angen cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp dwys iawn am nofel. Er nad oeddent yn fuddugol, roedd e'n brofiad hwyl a bythgofiadwy. Ymwelodd y tîm â wal Cofiwch Dryweryn ar y ffordd gartref ac aethon nhw hefyd i Aberaeron am hufen iâ blasus!




Cyrraedd rownd derfynol y Cwis Llyfrau Cymraeg fu hanes y plant amryddawn yma o flwyddyn 5 a 6 hefyd. Ddiwedd mis Mehefin fe aethon nhw i Aberystwyth i gystadlu ac yno fe gwrddon nhw â'r awdures Caryl Lewis, a oedd yn lansio ei llyfr newydd - HEDYN.







## Sesiwn Recordio

Cafodd Flwyddyn 6 y cyfle i brofi sut mae recordio cân. Daeth cwmni recordio i'r ysgol er mwyn recordio cân ymadael Blwyddyn 6. Cawson ni hwyl yn perfformio.



## Gwyddonwyr Garth Olwg Technocamps

Fe wnaeth Technocamps ymweld gyda'r adran Wyddoniaeth er mwyn cynnal gweithdy gyda disgyblion blwyddyn 9. Cafodd y disgyblion y cyfle i adeiladau a rhaglenni robot lego fel rhan o'r sesiwn gan geisio rheoli symudiadau a hefyd creu synau gwahanol. Roedd y gweithdy'n gyfle gwych i'r disgyblion flasu sgiliau rhaglenni newydd tra'n gweithio'n llwyddiannus fel tîm. Hoff beth 9PEN2 am y gweithdy oedd gweld sut roedd codiau gwahanol yn effeithio ar symudiad y robot a cheisio cael y robot i gyrraedd diwedd y fainc heb gwympo oddi arni! Diolch yn fawr iawn i Technocamps am y profiadau yma!





## Gweithdy GIST

Cafodd criw o ferched blwyddyn 9 y cyfle i fynychu gweithdy STEM yng Ngholeg y Cymoedd yr hanner tymor hwn. Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i'r disgyblion ymgymryd mewn sawl gweithdy cyfrifiaduro a rhaglenni er mwyn ceisio hybu diddordeb merched o fewn y pynciau STEM. Fe wnaeth y merched fwynhau'r sesiynau gwahanol (a'r freebies!) ac mae'r profiad wedi agor eu llygaid i bynciau nad oeddent wedi ystyried o'r blaen. Diolch yn fawr iawn i Technocamps a Choleg y Cymoedd am drefnu'r diwrnod.





## Gweithdy ymarferol Cemeg Lefel A



Fe wnaeth disgyblion blwyddyn 12 sy'n astudio lefel A Cemeg gael y cyfle i fynychu gweithdy ymarferol ym mhrifysgol Abertawe. Roedd y diwrnod yn gyfle gwych iddynt gyflawni sawl gweithgaredd ymarferol gan gynnwys synthesis dau gam, titradiad am nôl a chynhyrchu asbirin mewn labordai newydd sbon. Cafwyd y cyfle hefyd i gydweithio gyda myfyrwyr yr adran Gemeg. Rhai o uchafbwyntiau'r dosbarth oedd gweithio mewn labordy go iawn a gwella'u hyder wrth gwblhau gwaith ymarferol. Diolch yn fawr iawn i Brifysgol Abertawe am y croeso cynnes.






## Arddangosfa Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Cafodd rai o ddisgyblion Safon Uwch yr adran Dechnoleg y cyfle i arddangos ein gwaith creadigol ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Roedd yna amryw o bynciau o dan y gangen celf a dylunio yn cael eu harddangos gan gynnwys ffotograffiaeth, celf, 3D a thecstilau sydd i gyd yn cael eu cynnig yn ein hysgol ni. Mi oedd hwn yn brofiad anhygoel i allu dangos yr holl waith caled sydd wedi cael ei wneud dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf i'n rhieni, ffrindiau ac eraill sydd â diddordeb yn y pwnc. Mi oedd yn ysbrydoledig iawn hefyd i allu cerdded o gwmpas yr arddangosfa a gweld gwaith pobl ifanc o ysgolion eraill a oedd yn cyffwrdd rhannau o gelf gwbl wahanol i beth wnaethom ni, ond yr un mor ddiddorol.  Roedd y cyfle yma wedi caniatáu i ni ddeall a gwerthfawrogi ein celf a'n gwaith caled gan roi'r hwb i ddal ati ar gyfer y dyfodol wrth i ni barhau gyda'n hastudiaethau o fewn y maes Celf a Dylunio. Gan Ffion Fairclough, Blwyddyn 12.







## Gwasanaeth Meithrin arferion cadarnhaol

Ar ddechrau'r tymor hwn cafodd ddisgyblion yr Ysgol Isaf y fraint o gynnal gwasanaeth am feithrin arferion cadarnhaol i ddisgyblion yr Ysgol Hŷn. Ardderchog blantos roeddech chi yn wych!




## Sesiwn ddawns

Cafodd Bl 5 a 6 y cyfle i gymryd rhan mewn sesiwn ddawns gyda Miss Jones a disgyblion dawnus Blwyddyn 10. Cawsant gyfle i ddysgu sgiliau newydd a phrofi mathau gwahanol o ddawnsio. Diolch!





## Taith i Gwm Carn

Yn anffodus ni chafodd Blwyddyn 6 gyfle i fynd i aros yng ngwersyll yr Urdd yng Nglan-llyn na Llangrannog eleni - ond fe gawson nhw ddiwrnod i'r brenin ym Mharc Gweledig Cwm Carn, ger Caerffili. Bu pawb yn profi sgiliau antur newydd megis canŵio, cerdded drwy afonydd a padl-fwrddio. Er bod pawb yn wlyb ac yn flinedig ar ddiwedd y dydd - roedd y wên ar wyneb pawb yn dweud y cyfan.



## Make £5 grow

Unwaith yn rhagor, bu Blwyddyn 5 a 6  yn gweithio ar eu sgiliau entrepreneuriaeth gan ddilyn canllawiau 'Make £5 grow'. Daeth llu o ddisgyblion o flynyddoedd 4,7 ac 8 i brynu ein nwyddau. Diolch am ein cefnogi!.



## Pontio Gwyddoleg

Aethon ni i gael gwersi gydag athrawon Blwyddyn 7-13 yr hanner tymor hwn. Roedd y gwersi lle cawsom y cyfle i greu hufen ia yn hwyl dros ben ac roedd fi a fy mhartner wedi dewis gwneud caramel ond roedd hyn yn golygu llawer o waith cymysgu! Pan roedden ni wedi rhoi popeth mewn i'r bag roedden ni angen rhoi e mewn i dwb o ia a dŵr. Ar y diwedd roedden ni'n gallu rhoi toppings ar ei ben. Blasus iawn! Gan Josie Taylor, Blwyddyn 6.



## Taith Bl 5 a 6 i Ynys y Barri

Taith i'r Barri unwaith eto oedd dewis y dysgwyr fel taith diwedd y flwyddyn. Tra yno buom yn nofio yn y môr, chwarae ar y peiriannau ac yn joio yn y ffair. Atgofion melys tu hwnt.



## Piga dy Drwyn

Ddechrau mis Gorffennaf, aeth disgyblion Bl 6 i Gaerdydd i recordio rhaglen deledu 'Piga dy drwyn'. Bu'r plant yn cystadlu yn erbyn disgyblion Ysgol Glan Morfa….ond Ysgol Garth Olwg ddaeth yn fuddugol!




## Ymweliad Saoirse Anton

Roedd criw o flwyddyn 8 yn ffodus i gael ymweliad gan y bardd Saoirse Anton o Iwerddon. Ar ôl gweithdy sbardun, llwyddodd y disgyblion i ysgrifennu cerddi gwych a gwaith celf creadigol iawn. Roedd e'n brofiad cyffrous dros ben. Diolch yn fawr.







## Ysgolion Haf

Mae 3 o ddisgyblion Blwyddyn 11 wedi sicrhau llefydd mewn ysgolion haf ar draws Prydain yn ystod yr haf.

Llongyfarchiadau i Catrin England ar gael ei dewis i fynychu Ysgol Haf Prifysgol Aberystwyth ar gyfer dysgwyr Seren Sylfaen yn unig. Bydd Catrin yn cael y cyfle i astudio Newid Hinsawdd. Mae'n glod mawr iddi gael ei dewis a dymunwn yn dda iddi.

Llongyfarchiadau i Grace Rogerson ar gael ei dewis i fynychu Ysgol Haf Colegau Christ's, Murray Edwards a Sidney Sussex yng Nghaergrawnt ym mis Awst i astudio Hanes. Mae'n glod mawr iddi gael ei dewis allan o gannoedd o ddisgyblion ar draws y DU.

Llongyfarchiadau hefyd i Morgan Davies sydd wedi cael lle ar Ysgol Haf breswyl yng Ngholeg Newydd Rhydychen fel rhan o gynllun Seren. Bydd yn mynychu darlithoedd a gweithdai a gynllunnir i ddatblygu sgiliau ôl TGAU.

## Young Writers

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 4 am ysgrifennu cerddi gwych sydd wedi'u dewis i gael eu cyhoeddi gan Young Writers!



## Eisteddfod Llangollen

Aeth ensemble lleisiol blwyddyn 9 i gystadlu yn y gystadleuaeth grŵp "A Cappella" Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Ar ôl dwy flynedd o gyfuniad o ymarferion dros Teams ac ymarferion yr ysgol, llwyddon nhw i berfformio "The Lion Sleeps Tonight", "Nant y Mynydd" ac "Yfory" ar y llwyfan i safon uchel yn yr Eisteddfod, gan ennill yr ail wobr. Da iawn chi ferched!




Ar y 7fed o Orffennaf aethon ni fel côr ar drip i Langollen. Cyrhaeddon ni am 7 o'r gloch. Roedd llawer o bobl wedi chwydu ac yn teimlo'n sâl ond yn teimlo'n well unwaith i ni gyrraedd. Ar ôl i ni gyrraedd Llangollen, roedd hi'n amser cinio. Cawsom ni ginio ar y gwair fel picnic ysgol. Roedd e mor hwyl! Roedd llawer o bobl wedi dod â losin.

Yna, cwrddon ni tu ôl i'r llwyfan am 12.30. Roedd llwyfan Llangollen yn anhygoel - roedd hi'n enfawr a lliwgar. Daethon ni'n 8fed mas o 9 côr. Ar ôl canu, prynom ni dedi, 'fidget' a Beanie Boos'.  Roedd hi'n amser i fynd nôl ar y bws, felly roedden ni ar ein ffordd nôl am hanner awr wedi tri. Roedd hi'n daith fythgofiadwy. Diolch Mrs Howard am drefnu. Gan Mari Morris a Ffion Morris, Bl. 3.



## Parti Ponty

Cafwyd diwrnod hyfryd ym Mharti Ponty ym Mharc Ynys Angharad ar ddechrau Gorffennaf. Roedd disgyblion y côr iau wedi perfformio'n wych ar y bandstand a diddanwyd y gynulleidfa gyda chaneuon Y Dail. Bu disgyblion yr ysgol hefyd yn brysur yn gweithio gyda Technocamps i ddysgu'r cyhoedd am wyddoniaeth. Roedd yn hyfryd gweld y parc dan ei sang a chlywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol wrth fwynhau. Edrych ymlaen at flwyddyn nesaf.





## Taith Pêl-rwyd i Loughborough



Wel am daith fythgofiadwy! Y daith ysgol orau dwi erioed wedi bod arni! Ar ddydd Llun y 4ydd o Orffennaf dechreuodd 40 o ddisgyblion blwyddyn 8 a 9 tîm pêl rwyd Garth Olwg y daith i fyny i Loughborough. Dechreuodd y tîm gyda llun o flaen y bws yn edrych yn neis yn ei hwdis smart!
Ar ôl y daith hir i fyny cafodd pawb y cyfle i newid i mewn i'w ffrogiau pêl rwyd smart ac yna aeth tîm 1 a 2 syth i mewn i gêm! Ar ôl y gemau wedyn aethon ni nôl ar y bws ac i ganolfan siopa am bach o ginio a chyfle i wario arian. Ac yna nôl ar y bws i dîm 3 a 4 i gael cyfle i chware. Yn y gemau yn ystod y dydd roedd safon chware pawb yn wych wrth ystyried roedden ni newydd fod yn eistedd ar fws am 3 awr! Ac yna dechreuon ni ein taith i'r gwesty cyfforddus a oedd yn agos iawn i Brifysgol Loughborough.
Ar yr ail ddiwrnod sef Dydd Mawrth y 5ed o Orffennaf cawsom ni gyfle gwych i fynychu Prifysgol Loughborough, dyma lle mae'r Loughbrough Lightning yn cael ei hyfforddi. Roedd hi'n brofiad ceisio dod o hyn i'r man yr oedden yn cael ei hyfforddi ond cyrhaeddon ni yna yn y diwedd! Cafodd bawb brofiad gwych yn cael ei hyfforddi gan un o'r hyfforddwyr ac un o ferched sydd ar y tîm. Fe ddysgon ni lawer o bethau a gweithion ni ar ein hamddiffyn a'n ymosod. Ar ôl hynny wedyn aethon ni nôl ar y bws a dechrau ein taith draw i'r Bullring ym Mirmingham, cyfle gwych arall i wario ein harian! Oeddech chi'n gwybod bod y Bullring yn cynnwys y Primark mwyaf yn y byd? Ar ôl cwpwl o oriau prysur wedyn yn siopa aethon ni draw i chware gemau yn erbyn academi Gogledd Birmingham, cyfle gwych arall i chware yn erbyn tîm da arall! Aethon ni nôl wedyn ar y bws i'r gwesty i gael bwyd yn y Harvester oedd ond i lawr yr heol.
Ac yna cyrhaeddodd diwrnod olaf y daith. Nid oedd neb eisiau gadael! I orffen y daith fendigedig aethon ni i Alton Towers! Mi roedd llawer o sgrechian a'r mwyafrif o bobl wedi colli eu lleisiau ar ôl bod ar y reids mawr fel 'The Smiler', 'The Wickerman', 'Nemesis' a llawer mwy o reids hwyl! Ac yn nôl ar y bws nôl adref a doedd neb eisiau gadael! Ar y ffrodd adref cawsom ni seremoni wobrwyo ar y bws â nifer o bobl yn derbyn gwobrau am bethau doniol! 3 awr yn ddiweddarach cyrrhaeddon ni nôl adre i weld ein teuluoedd.

Wythnos wedyn cafodd y tîm pêl-rwyd blwyddyn 8 gyfle gwych i chwarae mwy o gemau yn Nhwrnamaint Cymunedol Graham Lewis yn Nhonyrefail yn erbyn llawer o ysgolion lleol. Roedden ni bron a mynd trwyddo i'r ffeinal! Mae'r bythefnos ddiwethaf wedi bod yn gyfle gwych i ni gyd ac mae'r merched i gyd mor ddiolchgar i Miss Jones, Miss Jones a Miss Rees. Gan Elliw Porter, Blwyddyn 8.



### Seremoni Gadael Blwyddyn 6

Cynhaliwyd seremoni hyfryd ar brynhawn poeth yn y Theatr i ddymuno'n dda i flwyddyn 6 wrth iddyn nhw symud ymlaen at flwyddyn 7. Roedd digon o chwerthin a dagrau wrth gofio'n ôl i nifer o uchafbwyntiau'r flwyddyn a chyfle i ddiolch i'r athrawon am eu gwaith caled.



**Llwyddiannau chwaraeon**



Llongyfarchiadau i Millie Davies, Paige Ward a Steffan Emmauel am gynrychioli Ysgolion Cymru yn erbyn Lloegr yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i Milly Watkins sydd yn nhreialon gymnasteg tîm Prydain.

Llwyddodd tîm rygbi plant Blwyddyn 5 a 6 ennill y plât yng nghystadleuaeth rygbi'r Urdd.  Yn hwyrach yn y mis, daeth y merched yn ail yng nghystadleuaeth Cwpan rygbi-tag merched yr Urdd, ac yn ail yng nghystadleuaeth y plât hefyd.








Colli yn y gêm derfynol fu hanes merched Blwyddyn 5 a 6 yng nghystadleuaeth pel-droed yr Urdd….a hynny wrth orfod cymryd ciciau o'r smotyn. Ymdrech anhygoel o wych.






Ddiwedd mis Mehefin, aeth y criw talentog yma o Flwyddyn 5 a 6 i'r House of Sport yng Nghaerdydd i gymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd. Da iawn chi ferched!



Llongyfarchiadau i dîm athletau bechgyn Blwyddyn 10 a lwyddodd i ddod yn 3ydd dros Gymru gyfan yng nghystadleuaeth y plât Athletau Ysgolion Cymru yn Aberdâr sydd yn llwyddiant arbennig iddynt.



**Dilynwch ni ar Twitter :**
**@garth_olwg | @TE_Prifathro | @OlwgPontio | @GarthOlwg_Canol | @GarthOlwg_Hyn | @GarthOlwg_Isaf | @IechydaLlesGO | @AddGorffGO | @mathgarth | @GarthOlwg_AwyrA | @SaesnegGO | @adranYGymraegGO | @DaearGO | @DramaOlwg | @CelfyddydauGO | @IRhGarth |@GwyddGarth | @CelfGarth |@PwyllgorEcoGO | @cerddoriaethGO @DyniaethauGO | @GarthOlwg_DaTh |**